# PARRY, RHISIART (1665? - 1749), bardd

**Enw:** Rhisiart Parry
**Dyddiad geni:** 1665?
**Dyddiad marw:** 1749
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

tybir ei fod yn frodor o Dyserth, Sir y Fflint. Ceir peth o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau, a hefyd yn *Blodeu-Gerdd Cymry* a'r *Cydymaith Diddan*. Barddoniaeth rydd yw'r rhan fwyaf ohoni - carolau plygain a gwahanol faledi. Nid yw'n glir ai'r un g r yw ef â'r Richard Parry, athro ysgol yn y Roe Wen, y cyfeirir at ei waith yn *Bibliog. of Welsh Ballads*. Dywedir iddo farw yn 1749 yn 83 mlwydd oed a'i gladdu wrth gongl ogleddol eglwys plwyf Dyserth.

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


*Llawysgrif Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 230 (34)

*NLW MS* 1238 (64)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 181

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734229


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu